Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cwrdd a'r Cymdeithion

Mae gan Karen dros ddeng mlynedd o brofiad fel pennaeth ysgol. Mae Karen yn fentor ar gyfer nifer o benaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro ledled Powys ac mae'n Gadeirydd y Bwrdd Cyfeirio Penaethiaid ar gyfer ERW

"Diolch i'm hymwybyddiaeth gynyddol o'r Ddeddf a'i gofynion, rwyf wedi gallu'i defnyddio wrth drafod pob math o faterion gyda'm hawdurdod lleol"

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn creu Cymru fwy cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus gynllunio a gweithio tuag at saith nod llesiant a phum ffordd o weithio.

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn statudol i bob corff cyhoeddus yn 2016. Fodd bynnag, rydym yn amau cwmpas a chyrhaeddiad y ddeddf. Gan fod yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgiadol Cymru (Academi Arweinyddiaeth) yn cydweithio â chyrff cyhoeddus amrywiol, mae'n hollbwysig archwilio'r Ddeddf a'i goblygiadau ar waith traws-sector wrth geisio gyrru agendâu yn eu blaenau.

Yn ystod haf 2018, cyflwynodd Sophie Howe, y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, seminar i swyddogion cyswllt yr academi a rhanddeiliaid dethol yr Academi Arweinyddiaeth er mwyn amlinellu egwyddorion y Ddeddf law yn llaw â'r goblygiadau ar gyfer gwaith y dyfodol ar draws tair haen y sector addysg yng Nghymru.

Daeth arwyddocâd y Ddeddf, a sut gallai effeithio ar weithgareddau'r dyfodol, yn glir wrth weithio gyda llywodraeth leol a chenedlaethol. Er gwaethaf hyn, roedd hi'n amlwg nad oedd addysgwyr yn yr ystafell mor gyfarwydd â hynny â'r Ddeddf! Mae hyn yn fater pryderus, gan ei bod yn ddarn hollbwysig o ddeddfwriaeth a allai sbarduno cydweithio ledled y system. Mae egwyddorion y Ddeddf, y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio, yn ddefnyddiol i bawb heb os. Dangosodd trafodaethau pellach â swyddogion y llywodraeth ar adegau eraill eu bod nhw'n ymwybodol iawn o'r Ddeddf, ac wedi gweithio ar gynlluniau'n gysylltiedig â hi. Yn anffodus, nid oeddent wedi trosglwyddo eu dealltwriaeth mewn ffordd gyson a chydlynus i arweinwyr ysgol ledled Cymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sail gadarn ar gyfer cydweithio ar draws y system. Mae angen iddi fod â phroffil uwch ar bob lefel os am gael yr effaith y gallai ei chael. Dylid sôn wrth arweinwyr ysgolion am y Ddeddf a'i goblygiadau, gan gyfeirio nid yn unig at benaethiaid ond hefyd at lywodraethwyr, sydd â dyletswydd gofal dros lesiant penaethiaid. Rhaid i lesiant barhau i fod yn sbardun allweddol wrth wneud penderfyniadau polisi ar draws y system.

Diolch i'm hymwybyddiaeth gynyddol o'r Ddeddf a'i gofynion, rwyf wedi gallu'i defnyddio wrth drafod pob math o faterion gyda'm hawdurdod lleol, gan gynnwys yr agenda ALN 0-5 lle'r oedd mynd i'r afael ag iechyd a llesiant disgyblion yn hanfodol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i
www.nael.cymru

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Cefnogir gan Lywodraeth Cymru
Supported by Welsh Government